

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

## 8. Rheoli arian

### 8.8 Cyflogres



Gall systemau cyflogau awtomatig a ddarperir gan contractwr allanol fod yn hynod ddefnyddiol ac effeithiol. Fodd bynnag, os yw mudiad yn defnyddio'i system gyflogi eu hun, bydd angen rheolaeth ddigonol ar bwy a delir beth a phryd a gwneud y taliadau.

Dim ond y pwyllgor rheoli gwirfoddol ddylai weithredu fel cyflogwr neu contractwr a chymeradwyo unigolion i ymuno a'r system gyflogau. Mae'n hanfodol i gael y manylion perthnasol (cyfeiriad, rhif yswiriant cenedlaethol, manylion banc ac ati) yn ystod y broses recriwtio fel y gall y gwaith ddechrau a'r cyflog ei dalu.

Efallai bydd y pwyllgor rheoli gwirfoddol yn dirprwyo awdurdod a chyfrifoldeb ar agweddu'r system gyflogau i aelod hyn o'r staff:

- newidiadau i fanylion talu,
- y symiau a delir o fen unrhyw gyfnod
- taliadau oriau tros ben
- taliadau benthyciadau
- cyfraniadau'r cyflogwr i'r Cyllid Gwladol
- sicrhau fod lefelau'r taliad yn gywir.

Dylai fod yn hollol glir y dylai'r gweithiwr gytuno ac awdurdodi newidiadau i'w manylion personol, er enghraifft, manylion cyfrif banc, didyniad arian i dalu benthyciad ac ati.

Mae'n bwysig ei fod yn glir pwy sydd ag awdurdod i wneud beth parthed y system gyflogau, y dylid cadw cofnod a'i ardystio pan wneir newidiadau neu ddefnyddio dulliau, a bod nifer y bobl sydd a'r hawl i awdurdodi newidiadau yn fach iawn.

### **Dulliau talu**

Gall mudiadau drefnu gyda'u banc i wneud taliadau cyflog i weithwyr. Fel arfer bydd angen cyfrif banc ar y gweithiwr. Bydd y mudiad yn gyfrifol am gofnodi manylion cywir bob mis yn y llyfrau a pharatoi taflenni cyflog yn dangos cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol a threth ac ati.

Os yw'r gweithwyr yn derbyn eu cyflog drwy arian parod neu siec mewn pecyn cyflog, dylent wirio'r cynnwys ym mhresenoldeb sy'n rhoi'r pecyn iddynt, a llofnodi i ddangos eu bod wedi derbyn y swm a nodwyd. Mae'r dull yma yn sicrhau fod yna gytundeb fod y pecyn cyflog yn cynnwys beth a ddylai.

Os oes yna anghydfod ynglŷn â'r swm cywir, gall y posibilrwydd o arian coll gael ei ddiddymu.

Dylid diddymu pobl yn syth o'r system gyflogau os ydynt yn gadael y mudiad am unrhyw reswm.

## **Talu ymddiriedolwyr**

Mae'n egwyddor o fewn cyfraith elusennol na thelir ymddiriedolwyr am eu dyletswyddau fel ymddiriedolwyr yr elusen. Ond mewn rhai amgylchiadau caniateir hyn i ddigwydd. Rhaid cofnodi taliadau o'r fath (a elwir yn 'honorariwm'). Nad yw'n addas i wneud taliadau o'r fath a smalio eu bod yn dreuliau.

Gellir talu ymddiriedolwyr elusen am roi gwasanaeth penodol i'r elusen; er enghraifft, rhoddir tal i ymddiriedolwr sy'n blymwr i drwsio pibellau'r elusen. Rhaid i'r pwyllgor rheoli gwirfoddol sicrhau y gellir cyfiawnhau'r gwariant yn nhermau defnydd gorau arian yr elusen h.y. rhoi rhesymau dilys pam y gwnaeth y person yna y gwaith yn lle rhywun heb gyswllt a'r elusen.

## **Rhoi nôl i'r system gyflogau**

Os ydych yn gweithredu system gyflogau eich hun, sicrhewch eich bod yn gweithredu system rhoi nôl. Mae'r system yma yn galluogi gweithwyr i wneud cyfraniadau i'r elusen yn uniongyrchol o'u cyflog. Gwneir y cyfraniadau ar ôl tynnu ffwrdd cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol ond cyn didynnu treth. Oherwydd bod gweithwyr yn rhoi arian cyn y dreth, telir y dreth ar beth sy'n weddill, sy'n golygu fod y gweithwyr yn derbyn rhyddhad treth yn syth ar y radd uchaf.

## Gwybodaeth bellach

Cyllid a Thollau EM  
Ffôn: 0845 010 9000  
[www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru  
Ffôn: 0845 3000 218  
[www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)


Pay Connect – Gwasanaeth cyflogres  
(Gweinyddwyd gan WCVA ar ran mudiadau gwirfoddol)  
Ffôn: 0800 2888329  
[help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Giving Wales (Payroll giving)  
Ffôn: 01970 631128  
[givingwales@wcva.org.uk](mailto:givingwales@wcva.org.uk)  
[www.wcva.org.uk/givingwales](http://www.wcva.org.uk/givingwales)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

## Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</b> <i>Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 218093</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 0300 111 0124      <a href="mailto:help@wcva.cymru">help@wcva.cymru</a> <b>Ffacs:</b> 029 2043 1701      <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>	 <p>Ffôn: 0300 111 0124 <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddarau: 15/08/2017</b></p>	